OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 2787

## Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001

## RHAN III

### ARCHWILIO ACHOSION

**Y weithdrefn ar gyfer cynnal archwiliad**

**7.**—(1) Os yw'r Comisiynydd yn penderfynu cynnal archwiliad rhaid iddo—

(a) llunio cylch gwaith yr archwiliad;

(b) anfon y cylch gwaith at y person a gyflwynodd sylwadau mewn perthynas â'r achos yn unol â pharagraff (a) o reoliad 6;

(c) anfon hysbysiad ysgrifenedig o'r archwiliad arfaethedig a chopïau o'r cylch gwaith at y person ("y person sy'n cael ei archwilio") y mae ei waith wrth ddarparu gwasanaethau neu wrth arfer swyddogaethau i gael ei archwilio;

(ch) rhoi cyfle i'r person sy'n cael ei archwilio, ac os yw ef yn dymuno hynny, i'w gynrychiolydd, gyflwyno sylwadau mewn ysgrifen neu yn bersonol mewn perthynas â'r materion sy'n cael eu harchwilio.

(2) Os yw'r Comisiynydd yn penderfynu peidio â chynnal archwiliad rhaid iddo baratoi datganiad o'r rhesymau am y penderfyniad hwnnw ac anfon copïau ohono—

(a) at y person a gyflwynodd sylwadau mewn perthynas â'r achos yn unol â pharagraff (a) o reoliad 6, a

(b) at unrhyw bersonau eraill y mae'r Comisiynydd o'r farn ei bod yn briodol eu hanfon atynt.